Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cynllun Ieithoedd Swyddogol:** Adroddiad Blynyddol 2021-22

Mehefin 2022



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cynllun Ieithoedd Swyddogol:** Adroddiad Blynyddol 2021-22

Mehefin 2022


Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Cynnwys

**Rhagair** ... **6**

**Ein Perfformiad** ... **9**

- Ein huchelgais, ein hymrwymiad a'n gwerthoedd ... 9

**Safonau Gwasanaeth** ... **11**

- Adborth gan Aelodau o'r Senedd a'u Staff Cymorth ... 12
- Rhannu Arbenigedd ... 12

**Gwybodaeth Ystadegol** ... **15**

- Recriwtio ... 15
- Busnes y Senedd ... 17
- Trafodion ... 18
- Pwyllgorau ... 19

**Themâu ar gyfer cyfnod gweithredol y Cynllun** ... **24**

- Thema 1: Recriwtio ... 24
- Thema 2: Sgiliau Iaith ... 24
- Thema 3: Cynllunio Ieithyddol ... 24
- Thema 4: Trafodion ... 24
- Thema 5: Datblygu ethos dwyieithog y sefydliad ... 25

**Monitro a Chydymffurfio** ... **26**

# Rhagair

## Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn bwrw golwg dros ein perfformiad a'n gwaith o ran darparu gwasanaethau dwyieithog dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn cau pen y mwdwl ar Gynllun y Bumed Senedd.

Mae gwaith y tîm wedi canolbwyntio yn bennaf ar baratoi ar gyfer y Chweched Senedd gan gynnwys drafftio ac ymgynghori ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol newydd, trefniadau pontio rhwng y Bumed a'r Chweched Senedd, a darparu cymorth a chefnogaeth i Aelodau newydd.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn, heb os, oedd agoriad swyddogol y Chweched Senedd. Roedd dwyieithrwydd yn rhan annatod o'r diwrnod gyda chyfraniadau a pherfformiadau yn defnyddio ein dwy iaith swyddogol yn rhan gwbl naturiol o'r dathlu.

Eleni, rhoesom groeso i Aelodau newydd o'r Senedd gan ddarparu rhaglen gynhwysfawr o sesiynau i'w cynorthwyo i ymgynefino â Senedd Cymru. Darparwyd sesiynau gan y Tîm Ieithoedd Swyddogol ar weithio'n ddwyieithog i nifer o Aelodau o'r Senedd a'u Staff Cymorth. Dychwelodd nifer o Aelodau a Staff Cymorth i'w gwersi Cymraeg gyda nifer yn ymuno o'r newydd yn dilyn etholiadau'r Senedd.

Unwaith eto eleni, gwelwyd cynnydd yng nghanran y cyfraniadau cyfrwng Cymraeg mewn trafodion. Mae hyn yn adlewyrchiad o'r gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau i gyfrannu yn eu dewis iaith. Ond tra bod trafodion dwyieithog yn norm yn Senedd Cymru gyda nifer o gyfranogwyr yn teimlo'n hyderus a chyffyrddus wrth ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall, mae angen gwneud mwy eto i annog hyder mewn defnydd o'r Gymraeg ac i ddeall unrhyw rwystrau. Y nod yw sicrhau bod y patrwm positif diweddar yn parhau.

Mae'n bwysig nodi nad ydym wedi cael unrhyw gwynion swyddogol eleni, ac mai prin iawn oedd nifer yr achosion a ddaeth i'r amlwg o fethu â chydymffurfio â gofynion y Cynllun. Serch hynny, yn yr achosion prin a ddaeth i law, ymchwiliwyd yn syth i ddarganfod beth oedd achos y broblem, a chymerwyd camau i unioni'r sefyllfa yn syth. Rydym hefyd wedi nodi unrhyw wersi y gellir eu dysgu o'r achosion hyn. Fe fydd y tîm Ieithoedd Swyddogol yn parhau i fonitro ac i gynghori cydweithwyr mewn achosion o'r fath, yn enwedig wrth i ni gyflwyno Cynllun

Ieithoedd Swyddogol y Chweched Senedd a'i roi waith dros y misoedd sydd i ddod.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad hwn ac edrychaf ymlaen at ddechrau ar y gwaith o gyflwyno'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Chweched Senedd yn fuan.



Rhun ap Iorwerth AS
Comisiynydd â chyfrifoldeb dros Ieithoedd Swyddogol



# Ein Perfformiad

## Ein huchelgais, ein hymrwymiad a'n gwerthoedd

> "Ein huchelgais yw dod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog lle y gall Aelodau'r Senedd, y cyhoedd a'r staff ddewis gweithio neu gyfathrebu'n naturiol drwy ddefnyddio'r ddwy iaith neu'r naill iaith swyddogol neu'r llall, lle caiff y defnydd o'r ddwy iaith ei annog a'i hwyluso yn frwd, a lle y caiff ein gwasanaethau dwyieithog rhagorol eu hehangu a'u gwella yn barhaus."

Eleni, mae gwaith y Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi canolbwyntio yn bennaf ar gynllunio, drafftio ac ymgynghori ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Chweched Senedd. Mae'r Cynllun drafft ar gyfer ymgynghori wedi'i gytuno ac mae'r ymgynghoriad ar waith. Cynigiwyd cyfleoedd i Aelodau o'r Senedd a'u Staff Cymorth a Staff Comisiwn y Senedd wneud sylwadau ar gynnwys a diwyg y drafft. Yn unol â nod strategol y Comisiwn i gael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn, a gofynion y Ddeddf Ieithoedd Swyddogol, bu cyfle i bobl Cymru wneud sylwadau hefyd. Cafodd y sylwadau hyn eu hystyried wrth lunio'r Cynllun ar gyfer y Chweched Senedd.

Mae Senedd Cymru yn sefydliad sy'n gweithredu ar sail ein gwerthoedd, ac mae'r gwerthoedd hynny yn adlewyrchu'r ymrwymiad i sicrhau amrywiaeth ar draws y sefydliad. Rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog amrywiaeth o fewn ein gweithlu. Gwerthfawrogir ein holl staff, pa mor ddwyieithog bynnag ydynt, am eu hymrwymiad i'r Senedd a'u harbenigedd proffesiynol a seneddol. Mae egwyddorion y polisi urddas a pharch wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn disgwyl i bob aelod o staff fod yn ymroddedig i ddarparu cymorth a gwasanaethau seneddol o'r radd flaenaf i Aelodau, eu staff cymorth a'r cyhoedd a hynny yn ein dwy iaith swyddogol.

Ein nod wrth gyflwyno a rhoi ein Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Chweched Senedd ar waith fydd cynnal y safonau a'r disgwyliadau uchel hynny, a sicrhau nad ydym yn gorffwys ar ein rhwyfau. Bydd Aelodau'r Chweched Senedd yn ein dal i gyfrif ar ran pobl Cymru.



# Safonau Gwasanaeth

Mae ail flwyddyn pandemig y Coronafeirws wedi golygu bod Senedd Cymru wedi canolbwyntio unwaith eto ar hyblygrwydd a sicrhau bod modd darparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf beth bynnag y bo lefel y cyfyngiadau. Wrth i fusnes y Senedd symud o gyfarfodydd cwbl rithwir i fformat hybrid yn unol â'r cyngor a'r cyfyngiadau cyfredol, rydym hefyd wedi bod yn cynllunio ar gyfer dychwelyd i sefyllfa sy'n fwy tebyg i'r hyn oedd yn bodoli cyn mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, mae'n bwysig i ni fanteisio ar y gwersi a ddysgwyd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, a defnyddio ein dulliau newydd o weithio i gynnal safonau a gwella ein gwasanaethau dwyieithog.

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn o newidiadau hefyd, gyda chyfnod y Diddymiad ac etholiadau'r Senedd. Gyda thraean o'r Aelodau a etholwyd yn rhai cwbl newydd i'r sefydliad, roedd y broses gynefino yn hynod o bwysig a hynny mewn cyfnod pan nad oedd bob amser yn bosibl i gwrdd wyneb yn wyneb. Er gwaetha'r anawsterau, darparwyd rhaglen gynefino lawn i'r holl Aelodau yn unol â'u hanghenion unigol ac yn eu dewis iaith a hynny trwy gyfuniad o sesiynau ar-lein ac yn y cnawd. Roedd y rhaglen yn cynnwys sesiwn ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, a'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer dysgu Cymraeg neu wella sgiliau iaith. Gwelwyd nifer o'r cyn-Aelodau oedd wedi bod yn derbyn hyfforddiant gan y tîm yn dychwelyd i ddysgu, ac mae nifer o Aelodau newydd hefyd wedi cofrestru naill ai i ddysgu Cymraeg neu i wella eu sgiliau iaith. Yn ogystal, rhoddir sesiynau cynefino rheolaidd ar weithio'n ddwyieithog ac am sut i ddysgu Cymraeg neu wella sgiliau iaith i staff cymorth a staff Comisiwn y Senedd sy'n ymuno â'r sefydliad.

Yn dilyn etholiadau'r Senedd, ac wrth i'r cyfyngiadau ganiatáu, cynhaliwyd Agoriad Swyddogol y Chweched Senedd fis Hydref 2021. Roedd pwyslais y diwrnod ar ddathlu Cymru a chomisiynwyd perfformiadau a chyfansoddiadau ar wahanol ffurfiau ar gyfer y diwrnod. Yn ystod y seremoni yn y Siambr, darllenwyd 'Ein Llais, Your Voice' cerdd ddwyieithog a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur gan Gruffudd Owen, Bardd Plant Cymru. Dau o gyn-Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru oedd yn darllen y gerdd. Roedd ein dwy iaith swyddogol yn rhan annatod o'r digwyddiad gyda'r ddwy iaith yn cael eu defnyddio yn naturiol drwy gydol y diwrnod.

## Adborth gan Aelodau o'r Senedd a'u Staff Cymorth

Mae adborth yn bwysig er mwyn sicrhau ein bod yn teilwra ein gwasanaethau i ddiwallu anghenion pob Aelod o'r Senedd. Yn ystod y misoedd yn dilyn etholiadau'r Senedd cynigiwyd cyfle i'r holl Aelodau newydd gwrdd â Phennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi a Rheolwr y Cynllun Ieithoedd Swyddogol er mwyn iddynt ddeall mwy am weithio'n ddwyieithog o fewn Senedd Cymru. Darparwyd sesiynau i Aelodau o bob plaid wleidyddol, naill ai yn unigol, neu mewn grwpiau. Roedd y sesiynau yn gyfle i glywed barn yr Aelodau newydd ar y gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod wythnosau cyntaf y Chweched Senedd, ac i ddeall mwy am eu disgwyliadau a'u dymuniadau wrth symud ymlaen. Mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol bob amser yn barod i gael adborth gan Aelodau a'u staff ac i addasu unrhyw wasanaethau er mwyn diwallu eu hanghenion. Byddwn yn cynnal sesiynau galw heibio rhithwir ac yn y cnawd er mwyn i Aelodau a'u staff gael cyfle i gynnig sylwadau ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol y Chweched Senedd fel rhan o'r ymgynghoriad cyn ei fabwysiadu.

## Rhannu Arbenigedd

Yn ôl ein harfer rydym unwaith eto eleni wedi manteisio ar y cyfle i gynnig cymorth a chefnogaeth i sefydliadau ar draws Cymru a thu hwnt. Rydym bob amser yn barod i drafod ein profiadau a rhannu gwersi a ddysgwyd dros y ddeng mlynedd ers i Ddeddf Ieithoedd Swyddogol 2012 ddod i rym. Yn wir, wrth i ni edrych yn ôl dros gyfnod y Bumed Senedd gan ddrafftio ein Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Chweched Senedd, un o'n hamcanion yw gwneud mwy o'r gwaith hwn, gan ddefnyddio'r rhwydweithiau rhyngwladol sydd eisoes wedi ymsefydlu.

Eleni, derbyniodd Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd wahoddiad i fod yn aelod o sgwrs panel arbenigol ar gyfer Seminar Ieithoedd mewn Seneddau y CSPG-GCEP (Canadian Study of Parliament Group). Roedd yn gyfle i egluro'r sefyllfa o ran ein hieithoedd Swyddogol yng Nghymru ac yn y Senedd, ac i sôn am

ein gwaith arloesol mewn meysydd megis cyfieithu peirianyddol a thechnoleg iaith. Roedd hefyd yn gyfle i drafod rhai o'r materion ymarferol a gwleidyddol sy'n ein hwynebu wrth redeg deddfwrfa ddwyieithog, yn ogystal â thynnu sylw at lwyddiant ein Senedd rithwir. Cafwyd sylwadau ffafriol yn dilyn y sgwrs panel.

Cafodd y Tîm Ieithoedd Swyddogol gyfle hefyd i drafod ein profiadau o ran cyflwyno'r matrics sgiliau iaith fel rhan o'r broses recriwtio, â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. Yn ddiweddar hefyd, bu cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi yn trafod ein defnydd o dechnoleg ar gyfer rheoli gwaith cyfieithu, yn ogystal â'n defnydd o dechnoleg iaith wrth gyfieithu dogfennau gyda chynrychiolydd o Gyfoeth Naturiol Cymru.


Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Gwybodaeth Ystadegol

Gyda'r trefniadau ar gyfer cynnal busnes y Senedd ar-lein, ar ffurf rithwir neu hybrid wedi ymsefydlu, a nifer o Aelodau newydd o'r Senedd, gwelwyd cynnydd sylweddol yng nghanran y cyfraniadau yn Gymraeg. Gellir priodoli'r cynnydd hwn i nifer o newidiadau i'r ffordd y bydd Aelodau yn cyfrannu at drafodion. Wrth i Senedd Cymru symud tuag at y cam nesaf o ran dychwelyd i fusnes yn y Senedd byddwn yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi Aelodau a thystion i ddefnyddio eu dewis iaith swyddogol. Mae angen i ni chwilio'n barhaus am ffyrdd o annog hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

## Recriwtio

Wrth i'r cyfyngiadau lacio, bu'n bosibl cynnig cyfuniad o gyfweliadau rhithwir ac yn y cnawd. Rydym wedi parhau i gynnig cyfweliadau i ymgeiswyr yn eu dewis iaith, ac wedi dod o hyd i ffyrdd o brofi sgiliau iaith ymgeiswyr fel rhan o'r broses recriwtio. Mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi bod yn gweithio ar gynnwys yr asesiad Cymraeg Cwrteisi ac wedi ei dreialu gydag ambell unigolyn, bydd y gwaith mireinio yn parhau cyn cyflwyno'r asesiad ar ei newydd wedd yn fuan yn y flwyddyn nesaf.

**Tabl 1: Nifer y swyddi a hysbysebwyd ar lefel Cymraeg Cwrteisi, neu gyda gofyniad sgiliau iaith uwch.**

**Allanol**

| | Swyddi a hysbysebwyd | Lefel Cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau* | Lefel 1-5 |
|---|---|---|---|---|
| **2018-19** | 54 | 35 | | 19 |
| **2019-20** | 49 | 28 | 3 | 18 |
| **2020-21** | 21 | 14 | | 7 |
| **2021-22** | 47 | 32 | | 15 |

**Mewnol**

| | Swyddi a hysbysebwyd | Lefel Cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau* | Lefel 1-5 |
|---|---|---|---|---|
| **2018-19** | 18 | 11 | | 7 |
| **2019-20** | 22 | 16 | 1 | 5 |
| **2020-21** | 18 | 12 | | 6 |
| **2021-22** | 20 | 9 | | 11 |

**Cyfanswm**

| | Swyddi a hysbysebwyd | Lefel Cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau * | Lefel 1-5 |
|---|---|---|---|---|
| **2018-19** | 72 | 46 | | 26 |
| **2019-20** | 71 | 44 | 4 | 23 |
| **2020-21** | 39 | 26 | | 13 |
| **2021-22** | 67 | 41 | | 26 |

**Canrannau**

| | Swyddi lefel cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau* | Swyddi lefel 1 - 5 |
|---|---|---|---|
| **2018-19** | 64% | | 36% |
| **2019-20** | 62% | 6% | 32% |
| **2020-21** | 67% | | 33% |
| **2021-22** | 61% | | 39% |

* Defnyddir cyfuniad o sgiliau pan fydd gofyn am sgiliau llafar ar lefel 1-5 mewn swydd, ond nid oes angen sgiliau ysgrifenedig uwch na chwrteisi.

## Busnes y Senedd

Ar ddechrau'r flwyddyn bu gostyngiad anorfod yn nifer cyfarfodydd busnes y Senedd wrth i ni symud i'r Diddymiad ac wrth i'r Chweched Senedd ymsefydlu wedi'r etholiad.

**Tabl 2: Canran y busnes a gyflwynwyd yn Gymraeg neu yn ddwyieithog fesul eitem**

<table>
<tr><th>Blwyddyn</th><th>Cwest Llafar</th><th>Cwest Ysg</th><th colspan="2">Cynigion</th><th colspan="2">Gwelliannau</th><th colspan="2">Dat Barn</th><th>Cwest Amserol</th></tr>
<tr><td>2017-18</td><td>13%</td><td>7%</td><td colspan="2">2%</td><td colspan="2">7%</td><td colspan="2">2%</td><td>10%</td></tr>
<tr><td>2018-19</td><td>11%</td><td>10%</td><td colspan="2">3%</td><td colspan="2">14%</td><td colspan="2">5%</td><td>15%</td></tr>
<tr><td>2019-20</td><td>8%</td><td>8%</td><td colspan="2">4%</td><td colspan="2">4%</td><td colspan="2">0%</td><td>9%</td></tr>
<tr><td>2020-21</td><td>8%</td><td>6%</td><td colspan="2">2%</td><td colspan="2">0%</td><td colspan="2">5%</td><td>16%</td></tr>
<tr><td>2021-22</td><td>14%</td><td>4%</td><td>2%</td><td>11%</td><td>4%</td><td>11%</td><td>10%</td><td>3%</td><td>18%</td></tr>
</table>

Eleni, addaswyd y system ar gyfer casglu gwybodaeth ystadegol er mwyn adlewyrchu busnes a gyflwynwyd yn ddwyieithog.

**Tabl 3: Dogfennau a osodwyd**

| Blwyddyn | Nifer y dogfennau a osodwyd | Nifer y dogfennau na osodwyd yn ddwyieithog | Canran |
|---|---|---|---|
| **2017-18** | 431 | 109 | 25% |
| **2018-19** | 1187 | 310 | 26% |
| **2019-20** | 808 | 141 | 17.5% |
| **2020-21** | 1442 | 98 | 7% |
| **2021-22** | 930 | 69 | 7% |

Mae dogfennau a baratoir gan Gomisiwn y Senedd yn cael eu paratoi a'u gosod yn ddwyieithog. Eleni, cafwyd dau eithriad lle gosodwyd dogfennau yn cynnwys cyngor cyfreithiol annibynnol yn Saesneg yn unig.

## Trafodion

Fel y nodwyd uchod, bu ychydig o leihad yn swmp busnes y Senedd gyda'r Diddymiad ac ymsefydlu'r Chweched Senedd wedi'r etholiad. Mae'r holl bapurau ar gyfer cyfarfodydd llawn a chyfarfodydd pwyllgorau ar gael yn ddwyieithog ac mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol ar gael i gynorthwyo Aelodau sy'n dymuno gwneud cyfraniadau yn Gymraeg yn ôl y gofyn. Nid yw'r gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf, heblaw am y ffaith ein bod bellach mewn sefyllfa i ailddechrau cynnig sesiynau wyneb yn wyneb i Aelodau os mai dyna yw eu dymuniad.

**Tabl 4: Canran y cyfraniadau Cymraeg**

| Math o gyfraniad | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2017-18 | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2018-19 | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2019-20 | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2020-21 | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Trafodion y Cyfarfod Llawn** | 20% | 18% | 16% | 23% | 30% |
| **Trafodion Pwyllgorau** | 8% | 7% | 6% | 9% | 12% |

## Pwyllgorau

Mae sicrhau bod Aelodau o'r Senedd yn gallu paratoi ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau yn eu dewis iaith yn hanfodol. Caiff papurau pwyllgor a baratoir gan Gomisiwn y Senedd eu paratoi yn ddwyieithog, ac mae timau'r pwyllgorau yn pwysleisio'r angen i dystiolaeth a phapurau gan drydydd partïon fod yn ddwyieithog hefyd. Mae'r trefniadau unigryw ar gyfer briffio aelodau pob pwyllgor, gan gynnwys pryd ac ar ba ffurf y caiff y papurau briffio eu darparu, wedi parhau wrth i Gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau'r Chweched Senedd gael eu penodi. Fel rhan o'r gwaith o sefydlu pwyllgorau'r Chweched Senedd, mae'r timau integredig wedi trafod dymuniadau'r Aelodau o ran deunydd briffio a gweithio yn eu dewis iaith gyda'r Aelodau unigol.

### Tabl 5: Papurau a gyhoeddwyd gan bwyllgorau'r Senedd yn Gymraeg yn unig

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Papurau a baratowyd yn fewnol** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ymatebion a gyflwynwyd i ymgyngoriadau** | 13 | 51 | * | * | * |
| **Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth y DU** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Llywodraeth Cymru** | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| **Aelodau unigol** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Unigolion neu sefydliadau allanol** | 9 | 21 | 22 | 13 | 16 |

* Nid yw'r data ar ymatebion i ymgyngoriadau bellach yn cael eu cadw oherwydd newid yn y dull o gyhoeddi'r ymatebion

### Tabl 6: Papurau a gyhoeddwyd gan bwyllgorau'r Senedd yn Saesneg yn unig

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Papurau a baratowyd yn fewnol** | 40 ** | 96 ** | 13** | 25*** | 18*** |
| **Ymatebion a gyflwynwyd i ymgyngoriadau** | 438 | 628 | * | * | * |
| **Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth y DU** | 23 | 52 | 13 | 37 | 16 |
| **Llywodraeth Cymru** | 174 | 263 | 218 | 194 | 47 |
| **Aelodau unigol** | 3 | 3 | 5 | 0 | 3 |
| **Unigolion neu sefydliadau allanol** | 659 | 727 | 804 | 587 | 377 |

** Ymatebion uniongyrchol i ohebiaeth a ddaeth i law yn Saesneg. Yn unol â'r Cynllun, caiff unrhyw ymatebion ysgrifenedig i ohebiaeth gan unigolion neu sefydliadau eu drafftio a'u cyhoeddi yn newis iaith derbynnydd yr ohebiaeth.

*** Cyfuniad o bapurau technegol i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a llythyrau gan gadeiryddion Pwyllgorau yn newis iaith y derbynnydd a gyhoeddwyd er gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor.

### Tabl 7: Papurau a gyhoeddwyd gan bwyllgorau'r Senedd yn ddwyieithog

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Papurau a baratowyd yn fewnol** | 1172 | 781 | 864 | 1149 | 799 |
| **Ymatebion a gyflwynwyd i ymgyngoriadau** | 218 | 131 | * | * | * |
| **Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth y DU** | 8 | 7 | 4 | 9 | 3 |
| **Llywodraeth Cymru** | 580 | 993 | 898 | 1599 | 790 |
| **Aelodau unigol** | 6 | 11 | 4 | 0 | 3 |
| **Unigolion neu sefydliadau allanol** | 337 | 361 | 243 | 218 | 211 |



# Themâu ar gyfer cyfnod gweithredol y Cynllun

## Thema 1: Recriwtio

Mae'r dull recriwtio gan ddefnyddio'r matrics sgiliau iaith a gosod gofyniad am sgiliau Cymraeg Cwrteisi neu uwch ar gyfer pob swydd a hysbysebir wedi gwreiddio bellach. Yn ystod cyfnod y Bumed Senedd, mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol ar y cyd â'r Tîm Recriwtio wedi bod yn casglu adborth, ac yn addasu neu fireinio yn ôl yr angen. Mae hyn wedi arwain at gyfres o gamau gweithredu a fydd yn cael eu cynnwys yn y themâu ar gyfer cyfnod gweithredol Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Chweched Senedd. Byddwn yn parhau chwilio am ffyrdd o ddarparu gwybodaeth eglur a dealladwy am y system a'r gofynion sgiliau iaith er mwyn denu'r ymgeiswyr gorau posibl ar gyfer pob swydd.

## Thema 2: Sgiliau Iaith

Mae ymddeoliad aelod o staff o fewn y tîm Ieithoedd Swyddogol wedi arwain at gyfle i ailstrwythuro. Cynyddwyd capasiti'r tîm tiwtora er mwyn ein galluogi i ddarparu rhagor o gefnogaeth i Aelodau, staff cymorth a staff y Comisiwn. Bellach gyda'r tîm yn ei le, byddwn yn gweithio ar ddarpariaeth hyd yn oed yn fwy hyblyg ac arbenigol. Bydd rhai o'n dysgwyr yn sefyll arholiadau CBAC dros y flwyddyn sydd i ddod, sy'n gyfle iddynt dderbyn cydnabyddiaeth am eu hymroddiad a'u gwaith caled dros gyfnod y pandemig. Bydd y tîm hefyd yn mynd ati i ddenu dysgwyr newydd ar draws y sefydliad, boed y rheini yn gyn-ddysgwyr neu yn Aelodau neu staff cymorth sydd wedi ymuno ers etholiadau'r Senedd fis Mai eleni.

## Thema 3: Cynllunio Ieithyddol

Yn dilyn ailstrwythuro mewn sawl tîm ar draws Comisiwn y Senedd, rydym wedi adolygu eu Cynlluniau Iaith Gwasanaeth yn fanwl. Mae'r adolygiadau manwl wedi arwain at newidiadau ystyrlon ac arferion da ar gyfer timau eraill hefyd. Mae penaethiaid gwasanaeth yn adolygu eu cynlluniau yn flynyddol fel rhan o'r broses o lunio'r Datganiad Sicrwydd Corfforaethol. Ar yr un pryd, adolygwyd y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog, a phenderfynwyd cyfuno'r strategaeth a'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Chweched Senedd.

## Thema 4: Trafodion

Mae'r wybodaeth ystadegol yn dangos cynnydd yng nghanran y cyfraniadau cyfrwng Cymraeg yn y Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd y pwyllgorau ers dros flwyddyn, gyda'r cynnydd mwyaf sylweddol yn dod ers etholiadau'r Senedd mis Mai 2021. Byddwn yn cynnwys nifer o gamau gweithredu yn y themâu ar gyfer cyfnod gweithredol Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Chweched Senedd i sicrhau

ein bod yn deall mwy am yr hyn sydd wedi arwain at y cynnydd, ac i geisio sicrhau bod y patrwm hwn yn parhau.

## Thema 5: Datblygu ethos dwyieithog y sefydliad

### Ymwybyddiaeth

Mae'r tîm hefyd wedi adolygu'r asesiad Cymraeg Cwrteisi er mwyn gallu cynnal yr asesiad ar-lein neu wyneb yn wyneb, ac adolygwyd y modiwl ynganu sydd ar gael i aelodau newydd o staff Comisiwn y Senedd i'w cynorthwyo gyda'r asesiad. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, bydd y tîm yn gweithio ar lunio hyfforddiant ymwybyddiaeth o weithio'n ddwyieithog i fynd law yn llaw â'r hyfforddiant ynganu ar ei newydd wedd. Adolygwyd cynnwys y fideo ymwybyddiaeth ar gyfer aelodau newydd o staff Comisiwn y Senedd, a chafodd darnau newydd eu recordio. Mae cynlluniau ar y gweill i greu cyfres o fideos ac adnoddau i ategu'r hyfforddiant ymwybyddiaeth.

# Monitro a Chydymffurfio

Mae ethos a diwylliant Senedd Cymru, a'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau dwyieithog wedi trawsnewid yn llwyr. Bellach rydym yn darparu gwasanaethau dwyieithog yn ddiofyn, gyda'r pwyslais ar sut i gyrraedd y safonau uchaf posibl wrth wneud hynny. Mae'r ffaith fod y feddylfryd wedi ymwreiddio ymysg holl staff Comisiwn y Senedd yn golygu ein bod yn gweld llai o achosion o fethu â chydymffurfio â'r Cynllun, a llai o gwynion am ein darpariaeth.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y gall cyflwyno a mabwysiadu Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Chweched Senedd, a'r newidiadau a'r gwelliannau a ddaw yn ei sgil, arwain at ambell i gamddealltwriaeth neu gamgymeriad. Bydd y tîm yn monitro'n ofalus iawn trwy waith y Cyd-gysylltwyr Ieithoedd Swyddogol, a'r system Risgiau Corfforaethol er mwyn nodi unrhyw achosion o'r fath yn fuan. Bydd Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Chweched Senedd yn cynnwys adran benodol ar sut i gysylltu â ni i gynnig adborth, a threfn gwyno Comisiwn y Senedd.

Mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol a'r Cyd-gysylltwyr Ieithoedd Swyddogol yn cofnodi unrhyw gwynion neu achosion o fethu â chydymffurfio â gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Mae adborth - boed yn gadarnhaol, neu yn awgrymu newidiadau y gellir eu gwneud, yn dra gwerthfawr. Rydym yn ymrwymedig i ystyried pob sylw sy'n dod i law er mwyn dysgu a gwella, a bydd hyn yn cynnwys yr holl sylwadau ac awgrymiadau a ddaw i law trwy'r broses ymgynghori ar y Cynllun newydd.

Eleni ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ffurfiol am ein darpariaeth. Mae Fforwm Cyd-gysylltwyr y Cynllun Ieithoedd Swyddogol wedi cwrdd i drafod materion yn ymwneud â'r Cynllun, ac mae prosesau mewnol eraill ar gyfer monitro cydymffurfiaeth hefyd yn digwydd yn rheolaidd. Mae'r prosesau hyn wedi dangos ein bod ar adegau wedi methu â chyrraedd y safonau uchel sydd wedi eu gosod yn y Cynllun, neu wedi bod mewn perygl o fethu â chwrdd â disgwyliadau defnyddwyr ein gwasanaethau. Mae'r achosion hynny yn ymwneud â dau faes:

**Diffyg eglurder am y broses o drefnu cyfieithu ar y pryd mewn digwyddiadau a noddir gan Aelodau o'r Senedd.**

Bellach, mae Comisiwn y Senedd mewn sefyllfa, gyda'r cyfyngiadau yn llacio, i ailagor ystâd y Senedd ar gyfer cynnal digwyddiadau. Cafwyd adborth nad oedd y broses o drefnu cyfieithu ar y pryd mewn digwyddiadau a noddir gan Aelodau o'r Senedd yn gwbl eglur. Wedi trafod gyda'r sawl oedd wedi cyflwyno'r adborth, aeth y tîm ati i newid y ffurflen archebu ar gyfer digwyddiadau i adlewyrchu'r sefyllfa'n well. Bydd y swyddogion sy'n trafod digwyddiadau gyda threfnwyr hefyd yn atgyfnerthu'r neges y gellir trefnu cyfieithu ar y pryd ar gyfer digwyddiadau o'r fath.

**Camgymeriad o ran cyhoeddi tystiolaeth a ddarparwyd i bwyllgor gan gorff cyhoeddus ar ein gwefan.**

Cysylltodd aelod o'r cyhoedd â'r pwyllgor i roi gwybod nad oedd tystiolaeth y corff allanol ar gael yn ddwyieithog ar ein gwefan, er gwaetha'r ffaith fod y corff ei hun wedi darparu'r dystiolaeth yn y ddwy iaith. Ymchwiliwyd i'r mater ar fyrder, a chadarnhawyd mai  camgymeriad dynol oedd hyn. Cyhoeddwyd y dystiolaeth yn syth wedi i'r camgymeriad ddod i'r amlwg, ac anfonwyd ymddiheuriad. Ni chafwyd unrhyw sylwadau pellach.